OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 463

# Rheoliadau Materion Gwledig, yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Bwyd (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

## RHAN 9

Diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â dŵr

**Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017**

**29.**—(1) Mae Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6(4)(c), ar ôl "Erthygl 7(1)" mewnosoder "ac Erthygl 8".

(3) Yn Atodlen 4, yn Rhan 3, yn lle paragraff 13(a) rhodder—

"(a) y crynodiadau radioniwclid a fesurwyd a'r cyfernodau dos y cyfeirir atynt fel "standard values and relationships" yn Erthygl 13, ac a argymhellir ar gyfer amcangyfrif dosau yn sgil cysylltiad mewnol yn y diffiniad o "standard values and relationships" yn Erthygl 4(96), o Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom sy'n nodi safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n codi o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio(**2**); neu".

**Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018**

**30.**—(1) Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 8(1), yn lle "items 1 to 11" rhodder "items 1 to 12".

(3) Yn Nhabl 3 yn Rhan 1 o Atodlen 3—

(a) ym mhennawd y tabl, yn lle "supply points" rhodder "in water supply zones (or supply points)";

(b) yn eitem 5, yn lle'r cofnod yng ngholofn 2 rhodder—

"*Colstridium perfringens* (including spores)[(1)]";

(c) yn eitem 11, yn lle'r cofnod yng ngholofn 2 rhodder—

"Indicative dose[(1)]";

(d) yn eitem 17, yn lle'r cofnod yng ngholofn 2 rhodder—

"Tetrachloroethene/Trichloroethene[(1)]";

(e) hepgorer y rhes sy'n ymwneud ag eitem 20.

(**1**) O.S. 2017/1041 (Cy. 270).

(**2**) OJ Rhif L 13, 17.1.2014, t. 1. O ran amcangyfrif dosau yn sgil cysylltiad mewnol, mae Erthygl 4(96) yn cyfeirio at bennod 1 o Gyhoeddiad 119 yr ICRP (Comisiwn Rygwladol ar Ddiogelu Radiolegol). Gweler Tabl F.1 yn Atodiad F. Gellir cael copi o Gyhoeddiad 119 yr ICRP ar wefan yr ICRP (www.icrp.org) neu gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**3**) O.S. 2018/647 (Cy. 121).